***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 1226 (Cy.109)

# GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

PENSIYNAU, CYMRU

## Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) (Diwygio) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *13 Mai 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *15 Mai 2009* |

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 26(1) i (5) o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947(**1**) ac adran 12 o Ddeddf Blwydd-daliadau 1972(**2**), fel y'u cymhwysir gan adran 16(3) o'r Ddeddf honno(**3**), ac a freinir yn awr ynddynt hwy(**4**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

(**1**) 1947 p.41, diddymwyd gan adran 52 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21) ac Atodlen 2 i'r Ddeddf honno. Mae is-adrannau (1) i (5) o adran 26 yn parhau mewn grym, at ddibenion y cynllun a sefydlwyd o dan yr adran honno fel Cynllun Pensiwn y Dynion Tân ac a welir yng Ngorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 (O.S. 1992/129), gan Orchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Cynllun Pensiwn y Dynion Tân) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/2918 (Cy.257)). Newidiwyd enw'r cynllun i Gynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) gan erthygl 4(1) o'r Gorchymyn hwnnw. Diwygiwyd y Cynllun ymhellach gan Orchymyn Pensiwn Dynion Tân (Cymru) (Diwygio) 2006 (O.S. 2006/1672 (Cy.160)) a Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) (Diwygio) 2007 (O.S. 2007/1074 (Cy.112)). Diwygiwyd adran 26 o Ddeddf 1947 gan adran 1 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân 1951 (p.27), adran 42 o Ddeddf Lluoedd Arfog Wrth Gefn ac Atodol (Amddiffyn Buddiannau Sifil) 1951 (p.65), adran 33 o Ddeddf Lladrad 1968 (p.60) ac Atodlen 3 i'r Ddeddf honno, adrannau 16 a 29 o Ddeddf Blwydd-daliadau 1972 (p.11) ac Atodlen 8 i'r Ddeddf honno, adran 100 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1973 (p.38), ac Atodlen 27 i'r Ddeddf honno, adran 1 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol (Darpariaethau Canlyniadol) 1975 (p.18) ac Atodlen 1 i'r Ddeddf honno, adran 32 o Ddeddf y Llysoedd Ynadon 1980 (p.43), adran 1 o Ddeddf Pensiynau'r Heddlu a'r Dynion Tân 1997 (p.52) ac Atodlen 25 i Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 (p.33), ac erthygl 2 o Orchymyn Nawdd Cymdeithasol (Addasu Deddf y Gwasanaethau Tân 1947) 1976 (O.S. 1976/551).

(**2**) 1972 p.11; diwygiwyd adran 12 gan Ddeddf Pensiynau (Darpariaethau Amrywiol) 1990 (p.7).

(**3**) Mae adran 16 yn parhau mewn grym at ddibenion Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (a ailenwyd yn Gynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) gan Orchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Cynllun Pensiwn y Dynion Tân) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/2918 (Cy.257))).

(**4**) Diddymwyd Deddf y Gwasanaethau Tân 1947 ("Deddf 1947") gan adran 52 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21) ("Deddf 2004") ac Atodlen 2 i'r Ddeddf honno. Parhawyd i gadw mewn grym swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan is-adrannau (1) i (5) o adran 26 o Ddeddf 1947, at ddibenion y cynllun a sefydlwyd o dan yr adran honno fel Cynllun Pensiwn y Dynion Tân ac a welir yng Ngorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 (O.S. 1992/129), gan adran 36 o Ddeddf 2004 ac O.S. 2004/2918 (Cy.257) a wnaed o dan y Ddeddf honno. Yr oedd pwerau yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 36 o Ddeddf 2004 yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd adran 62 o Ddeddf 2004. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.